

## Oedfa Gŵyl Ddewi

Cynhelir Oedfa ar gyfer Gŵyl Ddewi dan arweiniad y plant a'r ieuencid yng Ngharmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mawrth 1. Estynnir croeso cynnes i bawb.

## Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod o Henaduriaeth Arfon yng nghapel Bethlehem, Aber am 1.30 o'r gloch ddydd Mawrth, Chwefror 24. Yn ystod y cyfarfod ceir gan Lywydd presennol Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, y Parchg Neil Kirkham, a throsglwyddir llywyddiaeth yr Henaduriaeth oddi wrth y Parchg Gwenda Richards i Dr Gwyn Lewis, Seilo, Caernarfon.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Chwefror 22:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Lun, Chwefror 16:** Pwyllgor aelodau Nant Padarn yn Capel Coch am

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Chwefror 15

**10.00 a.m. - Oedfa Deulu**  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Chwefror 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd C Williams

### Mawrth 1

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul

6.00 o'r gloch.

**Gwener-Sul, Chwefror 20-22:** Cwrs Ieuencid yng Ngholeg Y Bala.

**Dydd Sul, Chwefror 22:** Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog. Ni fydd oedfa gyda'r nos.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 22:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Chwefror 22:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Llun, Chwefror 16:** Cynhelir y 'Te Bach' am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 20:** Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 22:** Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Chwefror 27:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Chwefror 15

10.00 a.m. - Y Parchg W R Williams  
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL  
Gwyliau Hanner Tymor  
5.00 p.m. - Y Parchg Megan Williams

### Chwefror 22

**10.30 a.m. - Oedfa Deulu**

### Mawrth 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Glenys Jones



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 625 Dydd Sul, 15 Chwefror, 2015

## Parascefidecatriaffobia

Gobeithio nad oes yr un ohonoch yn dioddef o *parascefidecatriaffobia*. Mae'n debyg ei fod yn swnio'n fwy poenus nag ydyw mewn gwirionedd. Ac eto, mae'n achosi mwy na digon o boen meddwl i'r rhai sy'n gaeth iddo. I'r bobl hynny, roedd y cyflwr ar ei waethaf echdoe. Ac er iddo gilio ers hynny, fe ddaw i'r wyneb ddwywaith eto cyn diwedd y flwyddyn. Un cysur bychan yw'r ffaith mai unwaith yn unig y bydd yn debygol o aflonyddu amyn nhw'r flwyddyn nesaf. Ond cysur mwy o lawer yw'r ffaith nad oes rhaid i'r cyflwr hwn gael y gorau amyn nhw a bod modd dod yn rhydd oddi wrth ei afael a'i ddylanwad.

Ofn dydd Gwener y trydydd ar ddeg o'r mis yw *parascefidecatriaffobia*. Cyfyd yr ofn o'r hen ofergoel bod y dyddiad hwn yn dwyn anlwc i bobl. Clywyd am bobl yn ofni codi o'r gwely ar y dyddiad hwn am eu bod yn ofni beth allai ddigwydd iddynt. Mae eraill yn ofni teithio ac yn mynnu addasu eu trefniadau er mwyn osgoi unrhyw beth a allai olygu lwc ddrwg iddynt. Druan ohonynt.

Does wybod o ble'n union y tarddodd yr ofergoel hon. Dowch i ni fod yn gwbl sicr i ddechrau mai dyna ydyw: ofergoel, sef ofer goel. Cred ofer yw peth fel hyn. Does dim gwir ynddi. Nid oes mwy o reswm dros ofni dydd Gwener y trydydd ar ddeg na dydd Gwener y cyntaf (neu'r ail neu'r degfed

neu unrhyw ddydd Gwener arall. Ac fel pob ofergoel arall am gerdded dan ysgol neu weld cath ddu neu am beidio mynd allan o dy trwy ddrws gwahanol i'r un y daethoch i mewn trwyddo, nid oes unrhyw sail iddi. Pa synnwyr sydd mewn credu bod ein hynt a'n lles yn ddiabyddol ar rif neu gath neu ddrws?

Mae gan y Cristion sail gadarnach o lawer i'w fywyd. Fel y dywed Tecwyn Ifan yn un o'i ganeuon, 'Credaf mewn rhagluniaeth, nid ofergoelion'. Duw sy'n darparu ar ein cyfer; Duw doeth a da a llawn cariad sy'n trefnu ein mynd a dod. Nid ydym ar drugaredd cyfres o bethau anwadal sy'n dwyn eu lwc a'u hanlwc i ni, ond yn hytrach yn llaw Duw a Thad sy'n ben dros bob peth ac yn gwarchod drosom bob amser ac sy'n gwneud i bopeth fod er daioni i'r rhai sy'n ei garu. Ni olyga hynny ein bod yn deall popeth sy'n digwydd i ni. Ni olyga chwaith ein bod yn medru derbyn yn rhydd holl droeon dirgel rhagluniaeth Duw. Ond mae'n golygu ein bod yn medru ymddiried bob amser bod y cyfan sy'n digwydd yn llaw Duw, a'i fod yn rheoli dros y cyfan ac yn gweithio'r cyfan yn ôl ei fwriadau da ei hunan. Fel y dywed yr emyn: 'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr yn dwyn ei waith i ben' a 'Tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth mae'n cuddio wyneb Tad'. Er mor anodd ar brydiau yw deall trefn rhagluniaeth y Brenin Mawr, cysur y Cristion yw mai ei Dad nefol sy'n gofalu'n dyner amdano ac yn trefnu'r cyfan ar ei gyfer.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad. Diolch i'r rhai sy'n arwain yr oedfaon heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams, Porthaethwy. Mae'n wyliau hanner tymor i'r Ysgol Sul.

Y gweinidog sy'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen, lle bydd Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Alun Roberts, 3 Pen Dinas, Tregarth yn yr Amlosgfa ym Mangor ddydd Mawrth diwethaf, Chwefror 10. Roedd yr oedfa yng ngofal y Parchg Dafydd Coetmor Williams, a soniodd am gyfeillgarwch a ffyddlondeb Mr Alun Roberts i'w deulu, ynghyd â'i barodrwydd i helpu yn ymarferol. Roedd wedi ymaelodi â'r eglwys yng Ngharmel, Llanllechid wedi i'r achos ym Mhenygroes, Tregarth gau. Cymerwyd rhan hefyd yn yr oedfa hefyd gan y Gweinidog.

Cydymdeimlwn â Gwilym a Gwenda Evans, Biwmares a'r teulu cyfan yn eu colled.

## Oedfa Sefydlu

Fel gwyddoch, mae'n debyg, mae'r Ofalaeth hon wedi ei hymestyn ers dechrau'r flwyddyn i gynnwys dwy eglwys Annibynnol arall. Caiff hynny ei nodi'n ffurfiol mewn oedfa arbennig a gynhelir yng nghapel Carmel, Llanllechid nos Sul, Mawrth 22.

Am 5.00 o'r gloch y noson honno, felly, cynhelir Oedfa Sefydlu'r Parchg John Pritchard yn weinidog i'r ddwy eglwys.

Estynnir croeso cynnes i aelodau'r ddwy eglwys i'r oedfa hon. Estynnir croeso hefyd i aelodau'r eglwys yn Llanberis a Deiniolen a Nant Peris i ymuno yn yr oedfa er mwyn nodi dechrau newydd yr

Ofalaeth estynedig. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i gyfeillion yr eglwys a phawb a garai ddod yno i fod yn rhan o'r dathliad a'r addoliad.

## Carmel

Brynhawn yfory, ddydd Llun, Chwefror 16, cynhelir y 'Te Bach' yng Ngharmel, Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

## Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth diwethaf yng nghwmni Mr Keith Jones, Clwt y Bont.

Cawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddo am ei waith ac am rai o'i gyfrifoldebau fel Ymgynghorydd Amgylcheddol Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Soniodd am y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn addasu ei hadeiladau er mwyn defnyddio ynni yn fwy effeithiol gan arbed ynni a dod o hyd i ffyrdd mwy amgylcheddol gyfeillgar o'u gwresogi a'u cynnal. Roedd ganddo awgrymiadau defnyddiol i ninnau ynghylch arbed ynni yn ein tai ein hunain.

Diolchwyd i Keith ac i'r rhai a baratodd y baned gan Mr Robin Jones. Diolch eto i Keith am ddod atom, yn arbennig o gofio bod ganddo daith hir o'i flaen y noson honno er bod cyrraedd cyfarfod gyda'i waith ben bore drannoeth.

## Swper Gŵyl Ddewi

Daeth criw da ynghyd i Swper Gŵyl Ddewi Bethlehem, Talybont yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, nos Fercher diwethaf. Cafwyd bwyd blasus a chroeso cynnes yno. Wrth estyn croeso i bawb, diolchodd Mr Neville Hughes i Mrs Barbara Jones am drefnu'r cyfan. Croesawyd a dymunwyd yn dda i'r Gweinidog hefyd, a chafodd yntau gyfle i ddiolch am y croeso. Daeth y noson i ben gyda chân ac ambell i stori

gan Neville a phawb yn uno ag ef i ganu. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y Swper.

## Nant Padarn

Cynhelir cyfarfod ar gyfer aelodau Nant Padarn yng Nghapel Coch am 6.00 o'r gloch nos Lun, Chwefror 16. Rhowch wybod os nad yw'r dyddiad a'r amser yn gyfleus i chi os gwelwch yn dda.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Gan ei bod yn wyliau hanner tymor yr ysgolion ni chynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yr wythnos hon. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Gwener, Chwefror 27.

## Cwrs Ieuentid

Cynhelir Cwrs Ieuentid (11–16 oed) yng Ngholeg y Bala ddiwedd yr wythnos hon, o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 20–22.

Os oes unrhyw un arall am ddod rhwch wybod i'r Gweinidog neu i Andrew mor fuan â phosibl, heno neu yfory.

Bydd bws yn cychwyn am 2.00 o'r gloch ddydd Gwener.

## Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi ganol mis Mawrth yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pawns a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.

Daw rhagor o fanylion eto, yn nes at y diwrnod ei hun.